tafod elái

Rhagfyr 1997 | Pris 25c | Rhif 123

SINEMA £10M I NANTGARW

Mae penseiri newydd ddatgelu eu cynllun ar gyfer sinema deuddeg-sgrin ym Mharc Nantgarw. "Fe fydd y sinema yn rhan o ddatblygiad gwerth deng miliwn o bunnau," meddai Ken Taylor, llefarydd Abbey Hanson Rowe, yn ei swyddfa yn Leeds. "Fe fydd y sinema'n creu 70 o swyddi, y ganolfan fowlio yn creu 25 o swyddi a'r bwytai'n creu 25 o swyddi. Mae hwn yn newyddion calonogol i'r ardal."

Roedd Abbey Hanson Rowe yn chwilio am safle yn nes at Bontypridd ond ar ôl trafod ag adran gynllunio Rhondda Cynon Taf penderfynodd y penseiri taw'r safle gorau oedd ochr draw i siop fawr Makro.

"Mae'r safle'n arbennig," meddai Ken Taylor. "Os yw'r broses caniatáu cynllunio'n gyflym, fe all y cyhoedd fynychu'r sinema yn haf 1998. Mae'r datblygiad hwn yn bosib iawn."

DOLEN

Mae Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch wedi cyhoeddi cylchlythyr i hysbysebu rhaglen y Gymdeithas am y flwyddyn.

Daw aelodau'r Gymdeithas o ardal eang rhwng Tonyrefail a'r Groesfaen ac o Donteg i Bontyclun ac mae croeso i aelodau hen a newydd i ymuno yn y gweithgareddau. Cafwyd taith lwyddiannus i Lundain ar Dachwedd 22ain i weld sioe Martin Guerre ac fe fydd y Cinio Nadolig yn Blas ar Gymru ar 12fed Rhagfyr. Cynhelir Noson Sgitls ar Ionawr 30ain.

Manylion pellach oddi wrth John Thomas 01443 218077.

GWLEDD PUM NOSON

Catrin Dafydd yn derbyn Gwobr Actor yr Ŵyl yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái

Cafwyd gwledd o ddramau yn Neuadd Dowlais ar ddiwedd Mis Tachwedd. Eleni, am y tro cyntaf, roedd yr ŵyl yn parhau dros pum noson gyda 19 o gynhyrchiadau yn cynnwys dramau, pantomeim a noson lawen.

Roedd y beirniad, Cliff Jones, Cynhyrchydd Pobol y Cwm, wedi mwynhau "wythnos fendigedig o gynhyrchiadau ardderchog".

RADIO CYMRU 24AIN AWR

Bydd Radio Cymru yn darlledu dros nos am y tro cyntaf ar nos Galan. Os ydych chi eisiau gweld mwy o ddarlledu Cymraeg gofynnwch am wasanaeth 24ain awr nawr. Nid yw'n amhosib o gwbl. Ac nid yw cael dewis o sianeli Cymraeg, un boblogaidd gyda chamdreiglo a geiriau a cherddoriaeth Saesneg ac un o "safon" efallai, yn amhosibl ychwaith - gofynnwch amdano.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
01222 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 01443 223687
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
01222 811413
HYSBYSEBION
David Knight 01222 891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 01222 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
01222 890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 30ain Ionawr
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
18 Ionawr 1998

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 01222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru

Gwasg Morgannwg
Uned 27
Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

GORSEDD Y BEIRDD

Annwyl Ddarllenwyr

Arholiadau Gorsedd y Beirdd
Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Fro Ogwr yn 1998, hoffech chi ymaelodi â Gorsedd y Beirdd a chael cymryd rhan yn ei gorymdeithiau a'i seremoniau lliwgar? Mae modd i chi wneud hynny trwy sefyll Arholiadau'r Orsedd a gynhelir ar y Sadwrn olaf yn Ebrill bob blwyddyn mewn canolfannau hwylus ledled Cymru.

Mae'r Orsedd newydd gyhoeddi Maes Astudiaeth newydd sbon ar gyfer arholiadau y tair blynedd nesaf. Yn ychwanegol at y meysydd arferol a fu'n rhan o gyfundrefn yr arholiadau dros y blynyddoedd - Barddoniaeth, Llenyddiaeth, a Cherddoriaeth, gan gynnwys adran arbennig i Delynorion a Datgeiniaid Cerdd Dant - fe geir adran hollol newydd yn y Maes astudiaeth diweddaraf hwn, sef maes Iaith. Hyderir y bydd yr adran hon yn gyfrwng i'r rhai sy'n ymddiddori mewn materion sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg roi cynnig ar yr arholiadau.

Os hoffech dderbyn copi o lyfryn newydd y Maes Astudiaeth ar gyfer 1998 - 2000 (pris £1 + cludiad post), cysylltwch â mi yn Llys Cerdd, 80 cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1LL, ac fe anfonir copi atoch. Gobeithio y bydd nifer ohonoch yn ymddiddori yn y Maes Astudiaeth ac yn awyddus i sefyll yr arholiadau.

Dr W Gwyn Lewis (Trefnydd yr Arholiadau)

DIACON Y MIS

Gwr a allai roi dau dro am un i'r rhan fwyaf o ddarlledwyr ifanc Radio Cymru yw Rhodri Gwyn Jones, blaenor Bethlehem Gwaelod y Garth, dyn sy'n llwyddo i wneud cyhoeddiadau o'r set fawr o'r naill wythnos i'r llall a hynny heb faglu dros ei eiriau.

Fel Talyrnwr a Dwrlynwr selog mawr yw'r disgwyl ym mhob oedfa am y ffraethinebau a ddaw o enau'r gwron o Sul i Sul.

Ond o'r gynulleidfa daeth y ffraethineb y tro hwn. Roedd Rhodri wrthi'n rhoi hys-bys i noson gwis Eglwys Minny St. Cathays, 'Cristnogion yn erbyn poenydio'. Ebe un wag cyfryngol wrth y llall: "Gobeithio gwneith y Cristnogion ennill!"

CLWB Y DWRLYN

Canu Carolau
Nos Lun 22 Rhagfyr am 7.00yh o Neuadd y Pentref, Pentyrch.

Y Fari Lwyd ym Mhentyrch
9 Ionawr 1998
Manylion Gwenfil Tomos: 01222 890570.

ARCHEBWCH
EICH COPI O
tafod elái
£2.50 AM Y
FLWYDDYN

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

Cyfeiriad eich Cyngor Sir

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda-Cynon-Taf
Y Pafiliwn, Parc Cambrian.
Clydach. CF40 2XX.
Ffôn: 01443 424000.

Cyngor Sir Dinas Caerdydd
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd. CF1 5UW
Ffôn: 01222 872000.

Ysgrifennwch / Ffoniwch yn Gymraeg

NEWYDDION YR URDD

TRIP I ASTON VILLA

Ar 22ain Tachwedd fe drefnodd yr Urdd drip i weld Aston Villa v Everton. Daeth 50 o blant o bob cwr o Rhondda Cynon Taf ac fe fwynhaodd pawb yn fawr iawn. Roedd y rhan fwyaf ar y daith yn gefnogwyr brwd o Aston Villa ac roedd y sgôr terfynol o 2 - 1 i'r gŵyr o Firmingham wedi bodloni pawb bron!

Uchafbwyntiau'r diwrnod oedd siarad â Gareth Southgate cyn y gêm a gyrhaeddodd Parc Villa mewn Porsche llwyd gwerth miloedd a miloedd! Gwelsom nifer o'r sêr yn chwarae sef Savo Milosevic, Stan Collymore a Dwight Yorke i Aston Villa a hefyd y tri Chymro i Everton sef Neville Southall, Gary Speed (capten Cymru) a'r seren newydd, John Ostler. Roedd yn gêm cyflym a chyffrous iawn ac Everton aeth ar y blaen yn gynnar iawn yn yr hanner cyntaf gyda Gary Speed yn sgorio o'r smotyn. Er hynny, fe ymatebodd Aston Villa yn bositif i hyn ac roeddynt yn llawn haeddiannol o'r fuddugoliaeth yn y diwedd. Fe sgoriodd Savo Milosevic ac hanner ffordd trwy'r ail hanner fe sgoriodd Ehiogue. Roedd Neville Southall yn wych ac oni bai amdano fe allai Everton fod wedi colli o 5 gôl.

Llongyfarchiadau i Hefin Jones am ennill pêl droed ar y diwrnod wedi ei lofnodi gydag enwau chwaraewyr Aston Villa. Er hynny, roedd Hefin yno i gefnogi Everton felly roedd hyn yn sefyllfa eironig iawn!

Hoffai'r Urdd ddiolch i Eurof James, David Francis, Andrew Morrisey a Graham Morris a helpodd yn wirfoddol ar y diwrnod. Mae yna gynlluniau i drefnu gwibdaith arall o'r fath yma yn y dyfodol agos.

TRIP I STIWDIOS GRANADA

Trefnwyd trip yn ddiweddar ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 Rhydfelen. Trefnwyd y trip ar y cyd rhwng Rhydfelen a Glantaf. Cafwyd cyfle i ymweld â set Coronation Street, chwarae rhan 'Fitz' yn 'Cracker', cyflwyno This Morning, ymweld â set Adventure of Sherlock Holmes a thrip i lawr Baker St. Cyn cychwyn nôl i Bontypridd cafodd pawb bryd o fwyd 2 gwrs yn Harry Ramsdens.

TRIP I YNYS BARRI

Fel ffordd o hybu a threfnu gweithgareddau dros bobl ifanc yr ardal, fe drefnodd yr Urdd drip yn ddiweddar i Ffair Ynys y Barri ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth ysgolion Cymer, Llanhari a Rhydfelen. Roedd pawb wedi mwynhau ac roedd yr ymateb yn arbennig o dda gan bod dros 40 wedi mynychu'r trip. Rydym yn trefnu trip arall ar gyfer yr oedran 16+ i gyngerdd Cwmni Teledu Elidir ar Ragfyr 6. Yn perfformio bydd Iwcs a Doyle a'r Moniars.

Rhodri Francis
Swyddog Datblygu

CARIAD '97

* Un o gigs mwyaf 1997
* Bandiau indie a tecno gorau Cymru
* Lleoliad ffantastig
* Rhywbeth at ddant pawb

Yn dilyn llwyddiant digwyddiadau tebyg yn y gorffennol, bydd Cariad '97, y gig mwyaf eto, yn cael ei gynnal ar yr 22ain Rhagfyr. Yn cynnwys pedwar band gwahanol, yn ogystal a DJ amryddawn, y gobaith yw cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Eleni bydd y meistri tecno, Tokyu, yn llyodraeth dros doreth o enwau gwahanol. Bydd crefftwyr y gân gynhyrfus; Cerrig Melys yn siwr o blesio, gyda'u cymysgedd o angst ac alaw. Yn yr un modd mae Mr Smith yn siwr o symud eich traed wrth weu patrymau ffync anhygoel. Ac fe fydd Crac yn cychwyn y noson gyda'i swn egniol pynci. Ynghanol hyn oll bydd DJ Cai yn taflu tecno byrlymus at y gynulleidfa, gan sicrhau cymysgedd anhygoel o synau. Lleoliad y gig ysblenydd yma fydd Canolfan Hamdden Llantrisant.

Bydd holl elw'r noson yn mynd i Gwmni Gwen ac mae wedi ei drefnu yn llwyr gan griw ymroddedig o wirfoddolwyr. Ymysg nifer o gwmniau a sefydliadau sy'n cynorthwyo'r achlysur mae: ESIS, Celfyddydau Rhondda Cynon Taf, Urdd Gobaith Cymru ac Emanuel A. Kitchens & Bedrooms.

Cyngor y trefnwyr yw "byddwch yna, peidiwch a cholli mas ar un o nosweithiau gorau'r flwyddyn." Dylai unrhywun sydd am archebu tocynnau wneud hynny cyn gynted a phosib drwy ffonio 01443 402178. Pris tocyn o flaen llaw yw £5 yn unig.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

SWYDDI NEWYDD
Llongyfarchiadau i Dr Siân Davies (Machado) ar gael ei phenodi yn Feddyg Heddlu Gwent. Mae Siân yn Feddyg Teulu ym Mhontypwl ac yn ferch i Harri a Aneira Davies, Tonteg.

Dymuiadau gorau hefyd i Sarah Davies, Efail Isaf sy'n dechrau swydd newydd fel ysgrifenyddes feddygol yn Ysbyty Great Ormond St. Llundain.

CYDYMDEIMLAD
Estynnwn ein cydymdeimlad i Gill a Jeff Williams a'r teulu, Y Dell, ar ôl i Gill golli ei Mam yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gareth Owen, Maes y Celyn. Bu yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei goes ar ôl ei thorri yn chwarae pêl droed.

Hefyd i Alun Evans, Y Padoc, a fu yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei glust.

MEDALAU NOFIO
Llongyfarchiadau i Eleri Evans, y Padoc, ar ennill dwy fedal arian ac un efydd ym Mhencampwriaeth Canol Morgannwg i rai 9 oed a llai.

YSGOL FEITHRIN PENTRE'R EGLWYS
Darperir 'Brecwast gyda Siôn Corn' yn Neuadd y Plwyf, Pentre'r Eglwys ar fore Sadwrn y 6ed o Ragfyr rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso i Bawb. Bydd Disco Nadolig i'r plant ar Nos Fercher y 10fed o Ragfyr rhwng 6 ac 8 o'r gloch eto yn Neuadd y Plwyf. Disgwylir ymweliad gan Siôn Corn yn y Disgo hefyd.

LWYDDIANT GYDA'R MERLOD

Ar ddydd Sul 28ain Medi cafodd Dr Wynne Davies MBE a'i deulu o Ceulan Stud ym Meisgyn lwyddiant arbennig. Allan o gyfartaledd o fil o geffylau a merlod o bob brid a gystadlodd ym mhob un o sioeau amaethyddol mwyaf Prydain fe wnaeth merlyn o Feisgyn yn arbennig o dda yn The Horse of the Year Show yn Stadiwm Wembley.

O ymhell dros ugain mil o gystadleuwyr fe enillodd pymtheg o ferlod eu lle yn y gystadleuaeth dan 14.2 llaw ac fe gafodd wyth o geffylau eu dethol i fod yn y gystadleuaeth dros 14.2 llaw.

Yn is-bencampwr oedd Trefaes Taran, y march coch sy'n eiddo i Dr Wynne Davies o Ceulan Stud ym Meisgyn ac wedi ei fagu gan Huw a Carys Davies o'r Trefaes Stud yn Beulah ger Castell Newydd Emlyn. Dyma'r llwyddiant gorau i ferlyn mynydd Cymreig ers 1988.

Fe gafodd Taran ei ddangos gan fab Dr Davies sef David o Flaen nant Goch, Hermon, Cynwyl Elfed. Mae David yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae e wedi graddio mewn Amaethyddiaeth ac yn ddarlithydd yng ngholeg Gelli Aur a Phibwrlwyd yn ardal Caerfyrddin.

Dim ond pedair gwaith gafodd Taran ei ddangos yn ystod 1997, a chanddo record cant y cant. Roedd Taran yn bencampwr y sioe bridiau Cymreig yn Llanbed, sioe Dinas Abertawe, sioe Frenhinol Lloegr yn Stonleigh, ac yn bencampwr y Sioe Frenhinol Bath and West lle wnaeth Taran ennill ei le yn "The Horse of the Year Show".

CBAC WJEC
SIOP LYFRAU

SIOP LYFRAU CBAC

ANRHEGION NADOLIG

- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc
- Posteri lliwgar
- Llyfrau gosod
- Arweinlyfrau
- Adnoddau i ddysgwyr
- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol

Ar agor: Llun - Gwener 9.00am - 5.00pm
Ar agor: Dydd Iau 9.00am - 6.30pm ar gyfer siopa Nadolig

245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX
(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)

Ffon :
(01222) 265112
(01222) 265063
Ffacs :
(01222) 575987

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

BETHEL PENTECOSTIAID
Mae'r Eglwys hon wedi mentro ar agor siop gymunedol yn Nhonyrefail. Gobeithir gwneud elw tuag at Uned y Babanod yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg "da iawn".

GENEDIGAETH
Mae wyres fach, Clare - chwaer i Twm, wedi ei geni i Mr a Mrs George Gwilliam, Heol Uchaf. Mae George yn dysgu Cymraeg wedi dilyn cyrsiau gan Helen Prosser.

LLWYDDIANT
Llongyfarchiadau mawr i Miss Lucy Chivers ar ei llwyddiant yn ennill gwobr am yr artist orau o ysgolion cylch Taf Elai. Does dim llawer o amser ers i ni ei llongyfarch am ei llwyddiant yn y gystadleuaeth Cân i Gymru. Cyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac mae nawr yn Ysgol Gyfun Llanhari. Mae ei gwaith yn cael ei arddangos yng Nghanolfan y Miwni, Pontypridd.

NADOLIG
Mae'n brysur iawn yn yr ysgolion o'r feithrin i fyny gyda gweithgareddau o bob math yn mynd yn eu blaen. Cynhelir ffeiriau Nadolig a chyngherddau gan y plant ac wrth gwrs ceir ymweliad gan Siôn Corn yn gopa ar y cwbl.

EGLWYS DEWI SANT
Ar nos Fercher, 12fed o Dachwedd cynhaliwyd oedfa gydenwadol yn Eglwys Dewis Sant gyda gwahoddiad i bob achos yn y Ton. Er mai oedfa Saesneg oedd daeth i ran Capel y Ton i ddewis emyn Cymraeg sef "Cyduned y nefolaidd gôr" ar y dôn adnabyddus Miles Lane. Er ei fod yn dôn o dras Saesneg mae'n asio yn dda i'r geiriau. Cafwyd eitemau gan gynrychiolwyr o wahanol gapeli ac Eglwysi'r cylch ynghyd â chynrychiolydd o'r Eglwys Babyddol.

Anerchwyd ni gan y Parchedig Maxwell Evans o Benarth a fu gynt yn Ficer yn Llanfihangel yr Arth ger Llanybydder. Mrs Rosemary Ashman oedd yn arwain y noson ac yn ei chynorthwyo roedd y Ficer, Y Parchedig Erle Hastey. Thema yr oedfa oedd Ar Daith Gyda Crist. Cafwyd paned o de a bisgedi i gloi'r noson.

FFLUR ELIN
Ymddiheuriadau i Helen Prosser a Danny Grehan am i ni wneud camgymeriad wrth enwi eu merch Fflur Elin ac nid Ffion fel roedd yn rhifyn diwethaf Tafod Elai. Mae'n ddrwg calon gennym am y gwall yma.

Adferiad buan i Miss Beti Prosser, modryb Helen, mae wedi syrthio ac wedi torri ei braich.

CAPEL Y TON
Ar ddydd Sul, 23ain o Dachwedd cawsom gwmni Mr Errol Jones o Donteg i'n harwain yn y gwasanaeth.

Mae Mrs E. Copeland wedi ymgartrefu yng nghartref newydd Gelli Seren, Tonyrefail. Mae ganddi ystafell yn edrych allan ar gampws yr Ysgol Uwchradd a hyd yn oed yn gweld ei hen gartref yn Heol y Gilfach. Bendith arni yn ei chynefin newydd. Mae'n aelod yn y Capel ac roedd yn ffyddlon iawn hyd iddi fethu â dod i'r oedfaon.

Mae un o gyn-aelodau Capel y Ton, sef Mrs Mair Saunders sydd bellach yn byw yn Awstralia wedi bod o dan driniaeth law feddygol ac wedi bod yn wael ond fymryn bach yn well. Mae wedi symud o Dde Awstralia (Adelaide) i fyny i Queensland er mwyn cael gofal ei mab a'r ferch yng nghyfraith. Gobeithio y daw gwellhad buan iddi a dymuniadau gorau iddi oddiwrth aelodau a ffrindiau Capel y Ton.

CORAU RICHARD WILLIAMS

Ar nos Sadwrn 22ain o Dachwedd cynhaliodd Corau Richard Williams gyngerdd mawreddog yn Neuadd Hamdden Llantrisant. Roedd y corau i gyd yno yn cynnwys Boneddigion y Gan, Côr Merched Richard Williams a Chôr Plant a'r rhai ieuengaf sydd newydd ddechrau yn y côr hefyd.

Helen Hessey White, merch Richard Williams, oedd yr Unawdydd.

Cafwyd noson arbennig a digon o amrywiaeth ac ambell i gân Gymraeg. Llongyfarchiadau i Mr Richard Williams a'i ferch, Margaret am arwain, ac i Mr Jonathan Griffiths wrth y piano am wneud y gyngerdd yn wych.

SIOP BARA
Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau
wedi eu pobi yn y siop
mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

FFYNNON TAF NANTGARW GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

ENNILL BRWYDR WERDD

Mae cwmni wedi helpu pentrefwyr i achub llwybr natur. Roedd pentrefwyr Ffynnon Taf, Glan-y-llyn a Nantgarw yn ofni y byddai diwydiannwr yn prynu'r tir ar safle'r hen reilffordd rhwng Ffynnon Taf a Phwll Glo Nantgarw. Ond ar y funud olaf mewn ocsiwn ym Mryste fe dalodd Cwmni Surtrans £53,000 am y tir.

"Rydym yn falch iawn," meddai Elaine Bowring ar ran y pentrefwyr. "O'r cychwyn roeddem yn amau fod dyn busnes ar ôl y tir ac fe allai fod wedi troi'r llwybr natur yn ddatblygiad diwydiannol.

"Rydym yn deall fod Surtrans yn bwriadu troi'r llwybr natur yn llwybr seiclo erbyn y flwyddyn 2000.

SWYDD NEWYDD I SANDRA

Sandra Page yw ysgrifenyddes newydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Fe gafodd y swyddogion eraill eu hail ethol. "Diolch i Ceri, Diane a Jes," meddai'r cadeirydd, Sioned Mair. "maen nhw wedi bod yn dîm da yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi cael llawer o hwyl."

Y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant cleni oedd £2070 o'i gymharu a £763 y llynedd.

DEWRDER ALEX

Fe fu farw dyn busnes Alex Hurn yn 56 ar ôl salwch hir.

Fe gaeodd South Wales Forgemasters ym 1987 gan ddodi 100 o weithwyr ar y clwt. Alex oedd yr un gododd £750,000 er mwyn ail-agor y ffatri a sicrhau ei ffyniant.

Yn fuan ar ôl achub y ffatri fe gafodd ergyd fawr - strôc a difrod i'w ymennydd. Roedd mewn cadair olwyn ac yn aml clipian ei lygaid oedd y peth mwya' y gallai ei wneud.

Ond ymladdodd yn ôl. Fe ddechreuodd ysgrifennu llyfr. Fe ddechreuodd ddysgu Almaeneg a chadwodd mewn cysylltiad â datblygiadau ym myd busnes.

"Roedd e wastad yn gweithredu ag arddeliad," meddai ei wraig Olive. "Ni fynnai fyth ildio."

Cydymdeimlwn ag Olive a'i merch, Lorna.

CLAF YN GWELLA

Mae gyrrwr a gafodd anafiadau difrifol i'w ben ac anafiadau lluosog i'w gorff mewn damwain erchyll tu allan i Glwb Pêl-droed Ffynnon Taf yn gwella. Dechrau Hydref roedd car Mitsubishi Gallant Henri Bou FAisal, 25 oed mewn gwrthdrawiad a lori fawr llonydd.

Yn gynta fe aed a Mr Faisal i Ysbyty'r Brifysgol. Ers hynny fe gafodd ei symud i'r Ysbyty Brenhinol ac yna i Ysbyty Dwyrain Morgannwg.

Rydym yn deall iddo gael ei symud o'r uned gofal dwys i ward. Dymuniadau gorau iddo.

CYNGOR YN DAL I WRTHOD

Mae llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn mynd i ofyn i Gyngor Cymuned Ffynnon Taf esbonio eu penderfynid i beidio ag enwebu llywodraethwr. Dyw'r llywodraethwyr ddim wedi derbyn ateb ysgrifenedig eto - dim ond sylw ar y ffôn. Mae'r llywodraethwyr yn gobeithio datrys y broblem cyn gynted â phosib.

Etholwyd June Davidson yn Gadeirydd eto ac ail-etholwyd y Cynghorydd Christine Priday yn Is-gadeirydd.

Dyddiad cau enwebiadau ar gyfer llywodraethwr cyflogedig yw Rhagfyr 12. Yn ôl yr hysbyseb, byddai cefndir ym myd busnes yn y gymuned leol yn fanteisiol. Dylid anfon ceisiadau at Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Gwelod y Garth. CF4 8HJ.

COFIO MARTYN

Cydymdeimlwn â Robin a Jacqueline John a'r teulu. Fe fu farw Martin ar Dachwedd 6 yn 29 oed. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Thornhill ddydd Mercher, Tachwedd 19.

HELPU'R DEILLION

Ar Dachwedd 24 fe gyflwynodd Gerwyn Williams, Prifathro Ysgol Gwaelod y Garth, siec gwerth £210 i Sefydliad y Deillion. Llongyfarchiadau i'r plant.

MARW EDWARD SWEET

Yn dawel ar Dachwedd 14 yn Ysbyty Cofeb Ryfel Aberhonddu fe fu farw Edward George Sweet gynt o 4 Heol Fach, Nantgarw, gwr y diweddar Audrey, tad Peter a thad-yng-nghyfraith Bette.

Roedd y gwasanaeth ar Dachwedd 21 yn Heol Fach a'r angladd yn Amlosgfa Glyntaf. Fe ddanfonwyd cyfraniadau at Gymdeithas Cyfeillion Ysbyty Aberhonddu. Cydymdeimlwn a'r teulu.

CROESO I SOPHIE

Llongyfarchiadau i Linda ac Eddie Howard, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, ar enedigaeth eu merch, Sophie.

CODI £260

Fe gafodd Ffair Nadolig yr Ysgol Feithrin ei chynnal yn Neuadd y Pentre, Ffynnon Taf ar Dachwedd 22.

"Dyw'r swm ddim yn derfynol eto," meddai'r ysgrifenyddes, Helen Hoyle, "ond rydym yn amcangyfrif inni godi tua £260." Llongyfarchiadau.

Fe fydd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol Feithrin ar Rhagfyr 19 yn Neuadd y Pentref am ddeg o'r gloch a choffi a theisennau ar gael.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod y Garth. 10.30am Rhagfyr 7: Y Gweinidog, Cymun. Rhagfyr 14: Y Parch Elfed Williams. Rhagfyr 21: Y Gweinidog. Rhagfyr 25: Y Gweinidog. Rhagfyr 28: Y Parch Alan Pickard.

YSGOL GWAELOD Y GARTH
Rhagfyr 6: Ffair Nadolig Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, 12 - 2pm. Rhagfyr 9: 1.30pm a 6.30pm Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Bethlehem. Rhagfyr 19: Disgo i'r Plant gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: bob dydd Mawrth yn ystod y tymor yn Neuadd y Pentref 1.30 - 3pm. Manylion oddi wrth Heather Davies-Rollinson, 01222 811582.

ARWERTHIANT CIST CAR: bob bore Sadwrn, Clwb Rygbi Ffynnon Taf, 9 - 1pm.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

GWELLHAD BUAN
Dymuniadau gorau i Lois Hughes, Nant y Felin sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda ei gweld yn gwella a gobeithiwn ei gweld yn rhedeg o gwmpas yn fuan.

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn â John a Pat Edmunds a'r teulu, Penywaun ar golli tad John yn ddiweddar. Bu'r angladd yng Nghapel Nasareth, Pontiets.

PRIODAS
Ar y 15fed o Dachwedd priodwyd Charlotte Smith, Heol y Ffynnon a Paul Lloyd, Penybont ar Ogwr yn DeCourcey's, Pentyrch. Y morynion oedd Hannah Smith, Ceri Lloyd ac Emma Lloyd. Roedd y briodferch mewn ffrog sidan a les siampen a'r morynion hefyd mewn ffrogiau sidan ifori siampen. Aeth y pâr i Hawaii ar eu mis mel a byddant yn gwneud eu cartre yn Cross Inn.

CAPEL Y TABERNACL
Bu plant yr Ysgol Sul yn brysur yn ddiweddar yn llanw bocsus sgidie ar gyfer Operation Christmas Child a drefnwyd yn genedlaethol. Daeth tua 100 o focsus i law ac hyderwn y bydd y plant fydd yn ei derbyn yn cael gymaint o bleser ac y cafodd plant y Tabernacl yn eu paratoi.

Gwasanaethau Nadolig
Sul 14 Rhagfyr. 10.45 y.b. Gwasanaeth y Plant
Sul 21 Rhagfyr. 10.45 Gwasanaeth Teulu Twm.
19 Rhagfyr. Canu Carolau o amgylch y pentre. Yr elw tuag at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Pentre'r Eglwys.
Gwylnos y Nadolig 11.00 y.h. Gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig.
Croeso i bawb i'r gwasanaethau.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

TALWRN Y BEIRDD
Llongyfarchiadau i Dîm y Dwrlyn: Emlyn Davies, Rhodri Gwyn Jones, Ifan Roberts a Menna Thomas ar eu llwyddiant ar Y Talwrn yn Y Creigiau yn ddiweddar. Llwyddwyd i guro tîm Yr Awyr Iach a thîm Ffostrasol a chafodd y genedl glywed y campweithiau ar y radio rai wythnosau'n ôl. Pob lwc iddynt gyda'r rownd nesaf!

LLONGYFARCHIADAU
Pob dymuniad da i Gareth Roberts Ty Cnau a Beth Angell o Gaerdydd ar eu dyweddïad.

Da hefyd oedd clywed bod Catrin Rees, Llysycoed wedi'i hethol yn ddirprwy brif swyddog y merched yn Ysgol Gyfun Llanhari. Pob hwyl gyda'r gwaith.

Mae Rhian Warburton wedi bod yn brysur yn ddiweddar ac yn ystod yr haf cyhoeddwyd "Plentyndod" sef cyfieithiad o waith Tolstoy ganddi fel rhan o gyfres o gyfieithiadau o dan nawdd yr Academi Gymreig.

MERCHED Y WAWR
Bu aelodau Merched y Wawr o dan hyfforddiant Christine Malcolm yn mwynhau dangos eu sgiliau trin blodau yng nghyfarfod mis Tachwedd. Mae'n debyg mai Morfydd Huws, Ann Jones, Trish Thomas a Judith Thomas a ddangosodd fwyaf o addewid gyda'r trefniadau Nadoligaidd. Llwyddwyd hefyd trwy drefnu hamper Nadolig i godi arian at Neuadd y Pentref.

YSBYTY
Rydym yn falch fod Betsan Thomas wedi gwella ar ôl treulio cyfnod byr yn yr ysbyty a bellach yn ôl o flaen dosbarthiadau yn Ysgol Glantaf. Deallwn fod Garmon Davies yn mwynhau ei ymarfer dysgu yn Llanhari a Lisa Mair yn Rhydfelen.

GADAEL Y NYTH
Dymuniadau gorau i ddwy o bobl ifanc y pentref sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae Catrin Roberts, Ty Cnau wedi symud i Ystum Taf ers rhai wythnosau a Carys Wynne, Cefn Llan yn y broses o symud i Bontcanna. Gobeithio y bydd Tafod Elái yn cyrraedd eu cartrefi newydd!

Y THESBIAID
Cafodd nifer o'r pentrefwyr gyfle i ymddangos eleni eto ar lwyfan Yr Wyl Ddrama. Roedd Anna ac Ifan Glyn yn rhan o'r Diawliaid Dawnus, sef pantomeim Y Fenter a Catrin Rees, Alun Evans a Hywel Roberts yn aelodau o gast Panto Llanhari. Hoffai'r criw hŷn a fentrodd ar y llwyfan ddiolch i Margaret Roberts y cynhyrchydd am ei hymroddiad, ei hamynedd, a'i hysbytygarwch(!!) yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth baratoi'r amaturiaid anhydrin ar gyfer eu hawr fawr!

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

YSGOL EVAN JAMES
Ymwelodd PC Jeffries i siarad am ei waith â'r Uned dan 5.

Aeth Mr Gareth Owen, Elina Oakey a Gethin Harlin i dderbyn cyfrifiadur newydd gan Gwmni Tesco. Cawsant gwrdd â'r Aelod Seneddol, Kim Howells.

ATHLETAU
Daeth tîm yr ysgol yn ail o bedwar pwynt yn unig yn Athletau Dan Do Rondda Cynon Taf dan nawdd yr Adran Hamdden.

FFAIR YR YSGOL
Cynhelir y Ffair ar Nos Iau Rhagfyr 4ydd am 6.00pm. Croeso i bawb - stondinau amrywiol, arwerthiant llyfrau Cymraeg a Siôn Corn wrth gwrs!

CYNGERDD
Byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Sardis ar nos Iau 11eg Rhagfyr. Bydd y dosbarthiadau Meithrin yn cynnal eu cyngerdd yn yr ysgol ar brynhawn dydd Mawrth, Rhagfyr 16 a'r dosbarthiadau Derbyn prynhawn Mercher, Rhagfyr 17.

RYGBI
Enillodd tîm rygbi'r ysgol yn erbyn Ysgol Gymraeg Casnewydd 14 - 0. Collwyd yn erbyn Ysgol Pontyclun 15 - 0.

SYMUD
Dymuniadau gorau yn eu cartref newydd i Anwen Robins a'i gwr Dave, wedi iddynt symud o Gaerdydd i bentref Creigiau yn ddiweddar.

BEDYDD
Ar Dachwedd 2il bedyddiwyd Lowri Mair merch fach Helen Mary a Robert Stephen Farnham yng Nghapel Sardis. Y rhieni bedydd oedd Alan Farnham a Lynfa Jones a gweinyddwyd y bedydd gan Y Parch Hywel Lewis.

LES MISERABLES
Dewiswyd Trudi Heaven, Blwyddyn 6 ar gyfer rhan yn y sioe gerdd enwog allan o dros 200 o blant. Mae Trudi wedi bod yn flaenllaw wrth gynrychioli'r ysgol a'r Sir yn Eisteddfodau'r Urdd ers blynyddoedd.

Bydd Les Miserables yn y Bristol Hippodrome am dri mis gan ddechre ar ddiwedd Rhagfyr. Mae pawb yn yr ysgol yn edrych ymlaen at fynd i weld Trudi yn actio rhan Eponie, merch fach o deulu cyfoethog yn y dramagerdd.

Llongyfarchiadau a phob lwc i ti, Trudi.

CLWB GWAWR PONTYPRIDD / RHONDDA

Ionawr 7 Yoga yng Nghlwb y Bont am 8yh gyda Manon
Chwefror 4 Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen
Mawrth 4 Cinio Gwyl Dewi
Ebrill 1 Aerobics hawdd - Clwb y Bont

Am fanylion pellach ffoniwch:
Heulwen Stephens - Menter Taf Elái - 01443 226386 neu
Manon Rhys - Clwb Gwawr - 01222 216503.

YSGOL PONT SIÔN NORTON

Y CÔR
Bu Côr yr ysgol yn canu i'r henoed yng Nghilfynydd ar Dachwedd 20fed. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau yn fawr ac fe gyflwynwyd £37 i gronfa'r ysgol i ddangos eu gwerthfawrogiad.

ATHRAWON
Croeso nôl i Mrs Delyth Brown sy'n dysgu Bl 3 a 4 ar ôl iddi fod i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Diolch i Mrs Bethan Williams a fuodd yn dysgu'r dosbarth tra roedd hi i ffwrdd.

ACHOSION DA
Casglwyd dros £1000 i Gymdeithas y Deillion yn ddiweddar a dros £200 i Blant Mewn Angen. Diolch i'r plant a'r rhieni am eu cefnogaeth.

YMWELD Â'R HEDDLU
Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â Chanolfan yr Heddlu yn ddiweddar gan ymwneud ag amryw weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac i osgoi peryglon yn y gymdeithas a'r cartref.

DYDDIADUR
Tachwedd 28ain - Noson Rasus Ceffylau yn yr Ysgol.
Rhagfyr 4ydd - Gwasanaeth Babanod yng Nghapel Pont Siôn Norton.
Rhagfyr 4ydd - Noson Gymdeithasol ac arwerthiant llyfrau.
Rhagfyr 14eg - Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Sardis. 10.30 y bore a 6 yr hwyr.

CHWARAEON
Pêl Rwyd - P.S.N.11 St Michael's 1
Rygbi - Cilfynydd 3 cais P.S.N. 2 gais.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 01222 484816

YSGOL LLANHARI

Ceri Barnard, Lauren Phillips, Llinos Jones, Hywel Roberts, Lana Laidler a Donna Howard yng Nghynhadledd yr Ieuenctid.

Llun: Robin Griffith

DYSG A DAWN

Braf oedd gweld rhai o enwogion y dyfodol yn serennu yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái. Cafwyd digon o gyfle i chwerthin wrth wylio'r panto blynyddol llwyddiannus. Llongyfarchiadau i'r criw ar eu llwyddiant.

Gwelwyd dwyster a hiwmor yn netholiad effeithiol blwyddyn 5 o'r ddrama "i" ac wrth gwrs roedd sioc flynyddol ein hathrawon dawnus a thalentog "Jyngl Llanhari" yn gofiadwy iawn.

O'R DIWEDD

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Dafydd Roberts ar ei ddyweddiad â Miss Cheryl Edwards un o gyn-athrawon Llanhari sydd bellach yn bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Amlwch. Hen bryd hefyd ym marn y disgyblion!! Plis peidiwch â'n gadael am y Gogledd pell!!

PRIF SWYDDOGION

Daeth hi'n amser ethol prif swyddogion unwaith eto ac wedi'r pleidleisio a'r cyfri Helen Easterbrook a Rhodri Morris daeth i'r brig gyda Catrin Rees a Gareth Gibbson yn cael eu hethol fel dirprwy swyddogion. Mae'n siwr eu bod bellach yn paratoi i osod eu stamp ar yr ysgol!

CODI ARIAN

Bu'r Ffair Nadolig yn llwyddiant ysgubol unwaith eto gyda'r stondinau amrywiol yn rhoi cyfle gwych i'r shopaholics osgoi torfeydd y trefi wrth baratoi ar gyfer Yr Wyl.

MEWN UNDOD MAE NERTH

Braf oedd gweld ychydig o gyd-chwarae cyfeillgar ar y cae pêl droed a hoci yn ddiweddar gyda'r athrawon dewr yn mentro bygwth grym a brwdfrydedd aelodau'r chweched a hyn eto er mwyn codi arian at "Plant mewn Angen".

DEUPARTH GWAITH . . .

Rhaid edmygu rhai busnesau a chwmniau lleol ar eu dewrder yn cynnig profiad gwaith i aelodau bywiog blwyddyn 11. Yn ôl y sôn bu'n wythnos fuddiol a blinedig! Gwyliwch allan Richard Branson!

CYNHADLEDD IEUENCTID

Yn y Deml Heddwch, Caerdydd, cynhaliwyd Cynhadledd Ieuenctid De-ddwyrain Cymru ar 'Hawliau'. Disgyblion Ysgol Llanhari a enillodd y gystadleuaeth am 'Gân y Gynhadledd'. Cyflwynodd Siân Jobbins, ar ran yr Urdd blat arian iddynt.

I FYNY FO'R NOD

Rygbi unwaith eto sy'n mynd â bryd bechgyn y chweched ar ôl llwyddo i guro Ysgol Dyffryn Taf o 62 i 0 yn y drydedd rownd ac yna Ysgol Penfro yn y bedwaredd o 67 i 12. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y rownd nesaf yng nghwpan Cymru a dymuno pob llwyddiant i'r bois!

Cydnabuwyd yn bellach dalentau'r tîm rygbi gyda Rhodri Morris, Jason Simpson, Gethin Worgan a Geraint Jones yn cael eu dewis fel rhan o sgwad wreiddiol Cymru dan 18 ac wedi dethol pellach dewiswyd Rhodri fel un o'r 25 olaf lwcus. Llongyfarchiadau iddynt i gyd!

DYFAL DONC

Wrth edrych ymlaen at ddathliadau'r Nadolig, ffug brofion sy'n wynebu llawer ohonom. Mae'r adolygu'n drwyadl a'r disgwyliadau'n uchel. Pob lwc i bawb a meddyliwch am yr holl bartion wedi i chi gwpla!

Sara Esyllt.

YSGOL HEOL Y CELYN

RYGBI

I ddathlu paentio'r polion rygbi, fe chwaraewyd ac enillwyd y gêm yn erbyn Ysgol Coedpenmaen, 42 - 7.

ATHLETAU

Yng nghystadlaethau athletau dan dô fe lwyddodd y plant i gyrraedd y rownd derfynol yn erbyn ysgolion Dolau, Pentyrch, a Mihangel Sant.

GWERS ALLANOL

Fe fu Mr Brian Davies o'r Ganolfan Hanesyddol ym Mhontypridd yn tywys plant o flynyddoedd 3 a 4 o amgylch ardal Rhydfelin gan astudio hanes yr ardal.

LLANGRANNOG

Aeth nifer o blant o'r adran Saesneg i Langrannog am y penwythnos ddiwedd Hydref ynghyd â thair o athrawon.

DIDDANU

Bu'r dawnswyr a chôr yr ysgol yn diddanu myfyrwyr o dramor yn y Ganolfan Hanesyddol yn ddiweddar.

FFAIR GREFFT

Cynhelir Ffair Grefft Nadoligaidd yr ysgol Ddydd Mawrth, Rhagfyr 2il am 3.30.

CYNGHERDDAU

Dydd Iau a Gwener, Rhagfyr 11eg a 12fed yw dyddiadau cyngherddau'r ysgol, fe fydd dwy gyngerdd ar ddydd Iau, prynhawn a hwyr, ac un ar brynhawn dydd Gwener.

GŴYL DDRAMA

Wythnos I'w Chofio
Cliff Jones - Y Beirniad

Wythnos fendigedig. Dipyn o sioc ar y tro cyntaf i mi ymweld â'r ŵyl i weld cymaint o oedolion yma ond hefyd mae na grwp o blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn dod yma yn rheolaidd drwy'r wythnos os oedden nhw'n perfformio neu beidio - mae wedi bod yn hyfryd gweld hynny. Roeddwn wedi cael fy rhybuddio y bydd yn wythnos galed drom a bydd neb yn mynd i licio fi ar y diwedd ond fel oedd yr wythnos yn mynd yn ei flaen gallaf ddweud a llaw ar fy nghalon ei bod hi wedi bod yn waith ysgafn a phleserus ac mai wedi dod yn wythnos hawdd am fy mod wedi dod i sylweddoli na fedrwn i feirniadu wythnos fel hon. Mae'n amhosib beirniadu y gwahanol gwmnïau yma yn erbyn ei gilydd achos mae na rhywbeth da, positif, cadarnhaol wedi bod ym mhob un. Fi sydd wedi ennill yn y diwedd achos mai fi sydd wedi cael eistedd i lawr ac edrych ar bawb. Diolch am fy ngwadd.

Jyngl Llanhari

Traed y Ddraig

Ysgol Gyfun Rhydywaun

SYLW AR Y CYNHYRCHIADAU

Nos Lun

Traed y Ddraig - Clwb Dawnsio Menter Taf Elái
Da iawn am gystadlu roedd yn braf weld plant oedran ysgol gynradd ar y llwyfan.

Sindarela - Diawled Dawnus
Fe wnaed ymdrech dda iawn i gynnwys rhai o elfennau panto ac i gael y gynulleidfa i ymuno hefo nhw. Fe gawson ni ad-libio da - mae hynny yn rhan o banto - os oes rhywbeth yn mynd o'i le mae nhw'n gallu ateb yn ôl ar y gynulleidfa.

Miss Perffaith - Ysgol Gyfun Rhydywaun.
Perfformiad naturiol ond efallai yn rhy gyflym.

Mother Figure - Ysgol Gyfun Rhydywaun II
Cyd chwarae da ond angen datblygu at uchafbwynt.

TAFOD ELÁI

Y GWOBRWYON

Tlws Ysgol neu Ieuenctid
Ysgol Rhydfelen 2

Tlws Ifan Wyn i Oedolion
Cwmni'r Crwys

Tlws y Panto
Ysgol Llanhari

Tlws Noson Lawen
Cwmni Gwen

Tlws Heddyr Gregory Ysgol Gynradd
Traed y Ddraig

Cwpan T James Jones. Cwmni Gorau'r Wyl
Rhydfelen 2.

Actores yr Ŵyl
Catrin Dafydd

Cwmni'r Dwrlyn

Ysgol Gyfun Ystalyfera

Ar gyfer Gwobr Actor/Actores yr Wyl roedddwn yn edrych am bresenoldeb, amseru, symud da a'r ddawn i reoli cynulleidfa.Roedd y canlynol wedi eu hystyried:-
Fflur Wyn Ystalyfera, Dafydd Roberts, Llanhari, Thea Jones, Gwynllyw, Catrin Dafydd Gavin Ashcroft a Bethan Reynolds yn Eilian ab Dic Siôn, Elin Morse ac Anthony Evans.

Noddwyr yr Ŵyl
Fflic, Telesgop, Elidir, Cambrensis, Barcud-Derwen, Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Lluniau: D.J. Davies

Trefnydd: Colin Williams

Nos Fawrth
Rhwng Pob Cegaid - Ysgol Gyfun Ystalyfera
Alan Ayckbourn wedi bod yn boblogaidd iawn yr wythnos yma. Cyfanwaith da .iawn mewn drama anodd gyda chymaint yn dibynnu ar y gweinydd - mae na gymaint o seibiannau ynddi hi sydd angen eu cynnal. Roedd Fflur Wyn wedi tynnu fy sylw i.

"I" - Ysgol Gyfun Llanhari
Drama hynod o anodd yn arbennig y rhan olaf. Perfformiadau arbennig o dda gan Mared Swain ac Aled Davies. Eto roedd y perfformiad i gyd yn rhy frysiog ac ambell beth yn mynd ar goll. Mae'n rhaid i Mrs Jones yn y seddi ôl ddeall pob gair.

Tu Hwnt I'r Llenni - Cwmni'r Dwrlyn
Fe wnes i fwynhau y ddrama yma o'r cyfnod yma. Stereotypes yw'r cymeriadau i gyd yn cael eu cynrychioli yn ardderchog ar y llwyfan. O am fod yn Gwilym!

Jyngl Llanhari - Cwmni Athrawon Llanhari
Mae'n anodd actio heb fod geiriau gyda chi ond fe wnaeth Dafydd Roberts, Mowgli, yn arbennig o dda, roedd ei wyneb fel rwber weithiau. Roedd hi'n sgript wreiddiol addas fe gawson ni lot o hwyl am fod y bobol ar y llwyfan yn cael hwyl.

Gŵyl Ddrama Tafod Elái

Nos Fercher

Man Gwyn - Ysgol Gyfun Rhydfelen
Dechrau trawiadol iawn gyda chanu clir ac eglur iawn - deall bob gair o'r cwmni yma. Defnydd da o gyrff - corff o'r cast yn creu setiau - fe greon nhw attic allan o gyrff yn effeithiol - perfformiad roedd yn ddiddorol i edrych arno drwyddo draw.

Y Dewin Oz - Ysgol Gyfun Gwynllyw
Perfformiad cryf, caboledig a disgybledig iawn Mae gan y ferch sy'n chwarae Delyth, Thea Jones, dalent arbennig ac fe wnaeth argraff ddofn iawn arnaf. Roedd y corws yn ymddwyn fel cynulleidfa efallai na dyna oedd bwriad y cynhyrchydd efallai faswn ni wedi hoffi gweld tynnu i mewn fwy ar gynulleidfa y ncuadd.

Pethau Brau - Ysgol Gyfun Gwynllyw
Yn anffodus collwyd yr ail act o achos salwch un o'r cymeriadau ond fe gawson ymgais dda iawn i greu cymeriadau anodd a chymleth iawn gan y tri oedd yn cymeryd rhan yn y ddrama.

Eilian Ab Dic Siôn - Ysgol Rhydfelen
Drama newydd gan Dafydd Huws yn llawn egni yn addas iawn ar gyfer yr oedran yma. Gafon ni ensemble o actorion oedd yn nabod ei gilydd yn dda iawn ac roedd canolbwyntio a disgyblaeth y cwmni yn rhywbeth i'w ganmol a'i edmygu'n fawr. Roedd na gymeriadu ardderchog yn y cwmni roedd yr amseru yn dda - dydi ddim yn hawdd gwneud comedi - gwybod pryd i ddod â'r lein nesaf i mewn a'i tharo hi fel bod neb yn colli'r llinell honno. Roedd na unigolion cryf iawn - Catrin Dafydd yn cymeryd rhan y Coach yn ardderchog, roedd y ddau oedd yn cymeryd rhan Moulder a Scully yn grefftus iawn. Ddaru'r acen ddim slipio unwaith Gavin Ashcroft a Bethan Reynolds. Perfformiad cofiadwy dros ben.

Elian Ab Dic Sion
Ysgol Rhydfelen

Ysgol Gyfun Rhydfelen

"Oz" Ysgol Gwynllyw

Pethau Brau Ysgol Gwynllyw

Nos Iau

Yng Nghlwm - Ysgol Gyfun Glantaf
Roedd na ganolbwyntio yn digwydd yma. Cymeron nhw ddim o'u llygaid oddi ar y gynulleidfa. Defnydd da o lefelau er mai braidd yn static oedd y perfformiad i edrych arno. Nes i fwynhau fel oedd y grwp yma mor ffocused ar ei gwaith.

Mis Mêl - Cwmni'r Pentref
Yr unig ffordd allai ddisgrifio'r ddrama hon ydi mae hi'n gymysgedd o Ionesco, Becket, Brian Rix a Carry on Camping. Don ni ddim yn gwybod beth i ddisgwyl ac o'n i'n barod am unrhywbeth ond eto fe ges i fy synnu. Pan welais i'r torches ar dân ar y llwyfan a'r moto beic yn dod i lawr drwy ganol y neuadd ro'n ni'n dychmygu pawb yn mygu gyda'r mwg a'r nwyon gwenwynig. Fe gawson ni bedwar perfformiad hollol unigryw. Yr unig beth allai ddweud ydi fod y pedwar yma yn byw yn yr un tŷ!

Cnawd - Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Testun anodd iawn yn trin a Masectomy. Fe wnaeth y tri yma ymgais arbennig iawn eto roedd y llefaru yn rhy lithrig, yn colli cymalau a geiriau. Weithiau mae gwerth saib yn bwysicach na'r geiriau eu hunain.

Mis Mêl - Cwmni'r Pentref

Cnawd - Ysgol Cwm Rhymni

Drama Nadolig - Cwm Ni

Drama Nadolig - Cwmni Cwm Ni
Drama newydd gan y dramodydd ifanc, Gareth Williams. Alegorïau hyfryd yn rhedeg drwy'r ddrama ac roedd na berfformiadau glan iawn. Ro'n ni'n hoffi fel roedd y plot ar y diwedd yn cynnwys ni, y gynulleidfa drwy roi pleidlais ar ba garcharor i adael yn rhydd ac roedd y ffaith ein bod wedi gwneud fel wnaethon ni yn dangos fod y cymeriadau wedi gweithio hefyd. Peidiwch â phoeni fod drws y set yn siglo - mae Prisoner Cell Block H a Pobol y Cwm wedi cael yr un trafferth.

Gwyl Ddrama Tafod Elái

Nos Wener

Rhwng Pob Cegaid - Theatr y Crwys
Dechrau da gyda'r gerddoriaeth yn gosod y ddrama yn syth. Fe wnaeth y ffaith fod y gweinydd wedi cau ei falog ar y dechrau osod ei gymeriad e'n syth mae pethau bach fel yna yn creu cymeriadau llawn. Mae'n ddrama anodd oherwydd y seibianau ond ddaru'r cwmni yma eu cynnal nhw yn rhagorol. Ron ni'n meddwl fod perfformiad Anthony Evans fel gweinydd yn arbennig roedd o'n amlwg fod o wedi mynd dan groen y cymeriad.

Noson Lawen - Cwmni Gwen
Grwp o unigolion dawnus roedd na amseru a hiwmor gyda'r rhai oedd yn chwarae Roy Noble a Margaret Williams. Angen gweithio mwy ar waith llwyfannu a grwpio.

Panto Pantew - Ysgol Llanhari
Fe gawsom ni yma holl elfennau pantomeim, stori hollol syml, fe gaswon ni deimlo'n flin dros rhywun, fe gawson dywysoges, fe wnaethon nhw gynnwys y gynulleidfa, ac fe gawson ni ad-libio da iawn - rhan bwysig o'r panto. Fe wellodd y peth wrth fynd yn ei flaen, roedd na unigolion cryf a rhyw foeswers fach ar y diwedd. Fe ddaru nhw fwynhau ac fe ddaru ni fwynhau.

Cwmni'r Crwys

Cwmni Gwen

Panto Llanhari

HANES PERCHNOGION LLONGAU CAERDYDD

Drwy ei ddiddordeb yn natblygiad masnach llongau Cymru mae Dr David Jenkins, Ffynnon Taf, wedi rhoi ar gof a chadw agwedd bwysig o hanes y genedl. Yn ei lyfr diweddaraf "Shipowners of Cardiff" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd mae'n dilyn hanes corff o ŵyr blaenllaw a fu'n ddylanwadol iawn yn natblygiad llongau masnach Prydain.

Fe ffurfiwyd y Cardiff Shipowers' Association yn 1875 wrth i'r masnach byd eang mewn glo ddatblygu ac wrth i longau ager gymeryd drosodd o'r llongau hwylio. Allforiwyd dros 3 miliwn tunell o lo y flwyddyn honno ac roedd pwysau cynyddol ar y perchnogion i sicrhau fod eu llongau yn ddiogel.

Un o'r bygythiadau i reolaeth y perchnogion oedd Undeb y "Coal Trimmers". Nhw oedd yn gyfrifol am sicrhau fod y glo wedi ei gadw yn ddiogel yn holds y llong. Ceir disgrifiad yn y llyfr o'r gwrthdaro rhwng yr undebau a'r perchnogion.

Dr David Jenkins

Daeth galw mawr am longau i gario glo i Ffrainc ar ddechrau Rhyfel Mawr 1914 ac er fod Perchnogion Caerdydd wedi elwa o'r cynnydd roeddynt ymhlith y cyntaf i alw am reoli prisiau cario nwyddau. Erbyn 1917 y prif fygythiad i'r masnach byd eang oedd llongau-tanfor yr Almaen a lwyddodd i ddistrywio holl longau cwmni W. Watkin Jones.

Er fod dirwasgiad yr 1920'au wedi effeithio'n drwm ar y perchnogion llongau gwelwyd eu brwdfrydedd i ehangu y dociau wrth iddynt gynnig adeiladu morglawdd ar draws yr afon Taf ac Elái. Fe atgyfodwyd y syniad yn 1929 heb lwyddiant ond heddiw rydym yn dyst i wireddu breuddwyd rhai o fasnachwyr blaenllaw'r ddinas.

Cymdeithas y Perchnogion yn y Gyfnewidfa Lo yn 1917

Mae'r llyfr yn llawn o wybodaeth a hanesion am longwyr Caerdydd, cymdeithas o berchnogion a lwyddodd i gael dylanwad byd eang ar longau masnach.

Shipowners· of Cardiff. David Jenkins.

Gwasg y Brifysgol. £12.95

NADOLIG YNG NGHYMRU

Geiriadur Saesneg - Cymraeg Yr Academi

£10 cyfan yn rhatach yn TSO Oriel **£30**

Nadolig Blasus Ena a Christmas With Ena

y ddau wedi eu gostwng o £9.95 i **£7.95** yn unig

Christmas in Wales

Blodeugerdd Dewi Roberts

rhywbeth at ddant pawb - i lawr o £6.95 i **£5.45**

dim ond yn Y Llyfrfa Oriel.

Prynwch tra bod y stoc yn parhau. Siopwyr personol yn unig. Dim archebion trwy'r post.

The Stationery Office

Oriel, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd

Ar agor o 9.00 tan 5.30,

ac yn hwyr ar nosweithiau

lau ym mis Rhagfyr.

YSGOL CREIGIAU

CREIGIAU

Golygydd Lleol: Nia Williams

PÊL DROED

Chwaraeodd tîm pêl droed Ysgol Creigiau yn erbyn tîm pêl droed Gwaun Miskin ac fe enillodd Ysgol Creigiau 3 - 0. Cafodd y gêm yn erbyn Maes y Bryn ei ohirio oherwydd y tywydd. Collodd y tîm 3 - 0 yn erbyn Pentyrch a 3 - 1 yn erbyn Ysgol Gynradd Radur.

PÊL RWYD

Chwaraeodd tîm pêl rwyd yr ysgol yn erbyn Gwaun Miskin ac yn erbyn Maes y Bryn. Yn y gêm gyntaf yn erbyn Gwaun Miskin fe enillon nhw 6 - 2 ac yn yr ail gêm yn erbyn Maes y Bryn fe enillon ni 4 - 2. Ennillodd y tîm 13 - 1 yn erbyn Ysgol Gynradd Radur.

CÔR YR YSGOL

Canodd y Côr yn y CIA yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Gyfraith. Diolch i Miss Jones a Mrs Shewring.

YR URDD

Fe aeth Dosbarth 4 i Langrannog i fwrw'r Sul ddechrau m is Hydref. Fe gawson nhw amser gwych yn gwneud yr holl weithgareddau yno yng nghwmni dwy athrawes.

CLWB AMSER CINIO

Cawsom gyfle i groesawu Mr Andrew Tamplin i'r ysgol i gychwyn clwb amser cinio gyda phlant Dosbarth 4.

DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol fore dydd Gwener Hydref 12fed. Daeth y plant icuengaf a ffrwythau ac fe aeth rhai o blant Blwyddyn 5 a'r cynnyrch i Ysgol Craig y Parc. Fe ddaeth yr Adran Iau ag arian ar gyfer yr NSPCC ac fe ddaeth aelod o'r Gymdeithas i siarad â ni ac i dderbyn siec y casgliad.

APÊL PLANT MEWN ANGEN

Fe wisgon ni i fyny fel cymeriadau o lyfrau er mwyn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Fe gododd yr ysgol £400.

FFAIR NADOLIG

Fe gododd yr ysgol £750 drwy gynnal Ffair Nadolig. Daeth Siôn Corn i ymweld â'r plant bach hefyd.

MWY O GYMRY I'R CREIGIAU

Croeso i gwpwl bach ifanc o'r gogledd sydd newydd ymgartrefu yma'n y Creigiau - Ceri a Geraint. Maent yn byw yn Bryngwyn, rhif 8 y Teras. Daw Ceri yn enedigol o Drawsfynydd, a Geraint o'r Gellilydan. Uwch beiriannydd yw Geraint gyd Standard Products ym Maesteg - a chyn hynny bu'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Morgannwg - gweithio efo plant ag anghenion arbennig mae Ceri yn N.C.H. Cyncoed. Gobeithio y gwnewch ymuno yng ngweithgarwch Cymraeg yr ardal - a mwynhau!

GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Biddy Jones, 90 Parc y Fro, sy heb fod yn hwylus iawn yn ddiweddar. Brysiwch wella Biddy, a phrysurwch yn ôl i gymdeithas Merched y Wawr, Creigiau a Phentyrch.

CYFARCHION

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd Dda i holl bentrefwyr y Creigiau - a chofiwch, os oes gennych newyddion i'w rhannu efo darllenwyr Tafod Elai, rhowch ganiad, os gwelwch yn dda.

NEWYDD DDYFODIAID

Croeso i Anwen Robbins (Arnold gynt) a'i gwr Dave, yn briod ers blwyddyn a hanner bellach, i 21 Parc Castell y Mynach. Mae Anwen yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Evan James, Pontypridd a Dave yn Gyfrifydd gyda Hyder PLC. Mae Dave wrth ei fodd yn cefnogi rygbi ac yn edrych ymlaen i chwarae dros y tîm lleol.

NOSON CAROLAU

Cofiwch am y Noson Carolau a Chasgiau nos Fercher, 17eg o Ragfyr - noson yn llawn o hwyl y Nadolig, i ddechrau am 6.30. Tocynnau £2.

TRIP Y BABANOD CYMRAEG

Dydd Mercher, Hydref 29ain aeth y Babanod Cymraeg ar drip i Gapel y Tabernacl yn Efail Isaf. Gan mai Dathliadau yw thema'r Babanod y tymor hwn cawson nhw esboniad o'r hyn sy'n digwydd yn y capel drwy'r flwyddyn gan Mr Andrew Tamplin. Diolch yn fawr iddo am ei frwdfrydedd i sicrhau llwyddit yr ymweliad.

CYFRIFIADURON O TESCO

Fe aeth Mrs Davies, Ffion Canning a Timothy Evans i Tesco i gasglu cyfrifiadur newydd i'r ysgol.

YSGOL CREIGIAU AR Y TELEDU

Dydd Mawrth, Tachwedd 11eg, cafodd tri o blant Dosbarth 4 eu ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Ffeil'. Bu'r camera yn dilyn Bethan Pickard yn y bore ac yna yn ffilmio Anwen Lewis, David Gibbs a Bethan Pickard yn y dosbarth yn hwyrach yn y bore.

Diolch i David Gibbs a Bethan Pickard.

BWCI BRO!

Trist yw gweld bwcis bach y fro yn cau fesul un yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma. Collwyd siopau betio yn Ffynnon Taf, Rhydfelen a nifer o bentrefi eraill gan amddifadu'r gymuned o fannau cyfarfod difyr a lliwgar.

Ond siop sy'n dal i fynd yw Fairfields Racing yng Nglan y Llyn.

Ychydig o bobol sy'n sylwi ar y bwci bach hwn sydd wedi ei leoli mewn cilfach rhwng Fagins a Chlwb yr Ex-Servicemen's. Ond daeth y lle i amlygrwydd cenedlaethol y mis diwethaf pan fu Ifan Gruffudd yn betio - ac ennill - yno ar gomedi ddifyr iawn Frank Vickery 'Os Byw ac Iach' ar S4C.

D.W.H.

Y GROES GOCH - TYNNU'N GROES?

Mae'r Groes Goch sydd a'u pencadlys Cymreig newydd yng nghanolfan fusnes yr Ynys yng Ngwaelod y Garth yn chwilio am ysgrifenyddes ddwyieithog: cyflog œ11,000 p.a.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'n debyg mai dyna pam roedd yr hys-bys yn y Western Mail yn uniaith Saesneg.

DIOLCH AM WASANAETH

I nodi ei wasanaeth dros gyfnod o 30 mlynedd i Blaid Cymru fe gyflwynwyd cerdd gan Rhys Dafis, Creigiau i Dafydd Williams sydd yn dechrau mewn swydd newydd yn Awdurdod Datblygu Cymru.

Dafydd Williams

Nid swydd dyletswydd i wlad; - nid gorchwyl
Ydyw gwarchod treftad;
Nid car a siwt, ond crwsâd
Yn y galon, - ond galwad.

Pwy all fesur dy lafurwaith? - a rhoi gwerth
Ar gur cyrchoedd hirfaith?
Ni wyr neb yr anobaith
A'r dyheu ar hyd y daith.

Onid oedd dy galon di - yn cynnal
Pob cwyn a phob gweddi,
Pob ton o ddigalonni,
Pob cyffro o'n heiddo ni?

Y gwir unig; er hynny - ynot rhoed
Rhyw raid, rhaid i fynnu'r
Wawr a ddaw wedi'r awr ddu
Ac o raid dal i gredu.

Dyfalbarhau drwy'r amheuon; - boed sedd,
Boed siom, 'run mor ffyddlon;
Hybu iaith ein gobeithion
A hawlio twf i'r Blaid hon.

Ymlyniad tri deg mlynedd, a'u rhoi oll
Gyda'r un hynawsedd;
O swyn a chwyldro'r un sedd
Nes ennill inni senedd.

Rhys Dafis.

CYD

Cymry Cymraeg a dysgwyr ar y cyd.

Rhagfyr 12 CYD Tonyrefail yn cwrdd.
Rhagfyr 16. Cinio Nadolig CYD Tonyrefail. Bwyd blasus y Trebanog Arms. Dewch erbyn 7yh.
Ionawr 13. Sioe Sleidiau gyda Beryl Davies. Patagonia. Clwb Rygbi Tonyrefail. 8yh.
Chwefror 5. Noson Gemau CYD Pontypridd. Clwb y Bont am 8yh.

Manylion pellach gan Swyddog CTD - Danny Grehan 01443 671577.

TALWRN Y BEIRDD
TÎM Y DWRLYN

Dyma rai o'r campweithiau ddaeth â Tîm y Dwrlyn i'r brig yn erbyn Yr Awyr Iach a Ffostrasol yn y Talwrn a gynhaliwyd yn Ysgol Creigiau ar ddechrau mis Tachwedd.

Cwpled Caeth: Ceiniog

Ganwaith, gwell rhoi dy geiniog
Er llês, yn hytrach na llôg.

Rhodri Gwyn Jones

Englyn Cywaith: Ffenestr

Nid ydyw'r llygaid didwyll - heno i hon
Yn ffenest i'w chrebwyll
Gan y daeth y gwawn a'i dwyll
Yn gen i bylu'r gannwyll.

Cynhadledd

Mae'n dweud cyfrolau am y safon
Gafwyd 'leni i'r dadleuon
'Da'r Toriaid lan yn Brighton
Taw'r prif bwnc trafod oedd ffrog Ffion
A'r ffaith 'i bod hi braidd yn risgi
Gyda'i Wili yn y gwely
A beth am Hague - a oedd e 'sgwn i
Wrth rannu 'stafell a'i ddyweddi
Yn dal at bregeth fawr yr ha'
Wrth bawb o Gymru i ddweud "na"?

Huw Llywelyn Davies

Englyn Paham

<u>Cymru - Medi 18, 1997</u>

Paham y wnest ti amau - ac oedi
'Nghysgodion dy ofnau
Cyn rhoi'n wrol i'r golau
Un cam cyn bo'r drws yn cau?

Rhodri Gwyn Jones

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Cap cyntaf i Gymru
Llongyfarchiadau i Gareth Wyatt, cyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanhari ar gael ei gap cyntaf i Gymru yn erbyn Tonga, dydd Sul 16 Tachwedd ar faes Sain Helen, Abertawe - a sgorio cais. Gwych iawn! Mae Gareth yn chwarae i Bontypridd wrth gwrs a byddwn i gyd yn dilyn ei yrfa â diddordeb mawr.

Teulu'n creu cerddoriaeth
Un nos Sadwrn ym mis Tachwedd cyflwynwyd sioe arbennig gan Gwmni Rigoberta yn yr Eglwys Norwyeg yng Nghaerdydd. Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio gweld perfformiad o Banc y Byd, Gareth Miles, gan yr un cwmni yn Eglwys Gadeiriol Llandaf y llynedd. Y tro yma roedd Bob Swain wedi ysgrifennu cerddoriaeth arbennig i gyfieithiadau Gareth Miles o gerddi beirdd o Dde America, gan gynnwys gwaith y bardd a enillodd Wobr Nobel, Pablo Neruda. Ysgrifennodd Bob y gerddoriaeth i ddwy delyn a chwaraewyd y telynau gan ddwy o'i ferched, Carys ac Esyllt.

Y Siop Newydd
Agorwyd siop newydd ddiddorol ar sgwâr Llantrisant, neu'r Bullring, yn ddiweddar, ac mae camu i mewn iddi fel camu'n ôl hanner can mlynedd. Mae'r siop yn gwerthu llysiau ffres, cacennau a bara a bwydydd o bob math, ac mae'r llawr pren a'r hen jariau losin ar y silffoedd yn rhoi awyrgylch arbennig iddi. Os byddwch yn chwilio am anrhegion yn siopau crefftau'r Llan, mae'r Bullring Stores yn siop fach arall sy'n gwneud Llantrisant yn le difyr i siopa y dyddiau yma.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Trip y Gymdeithas
Ar 22 Tachwedd aeth y Gymdeithas am dro i Lundain am y dydd, rhai i siopa a rhai i weld y sioe 'Martin Guerre'. Pawb wedi mwynhau fel arfer, a'r rhan fwyaf wedi bihafio.

Nofio dros yr ysgol
Bydd pedair o ferched yn cynrychioli'r ysgol yn gala cenedlaethol yr Urdd ddydd Sadwrn y 6ed o Ragfyr ym Mangor. Y pedair yw Keyleigh Smith, Amy Prosser, Lauren Jackson a Leigh Davies. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.

Plant mewn angen
Bu plant yr ysgol yn codi arian unwaith eto at ddiwrnod Plant mewn Angen y BBC. Gan mai'r Ail Ryfel Byd yw thema'r ysgol am y tymor, gwisgodd y plant fel ymgilwyr ac aethpwyd â siec o £114 i lawr i'r BBC.

Ymweld â'r theatr
Aeth dosbarthiadau 5-6 a 4-5 i weld cwmni theatr mewn addysg Theatr Gorllewin Morgannwg yn perfformio 'Ac Abertawe'n Fflam' a oedd eto'n cyd-daro â thema'r Ail Ryfel Byd. Roedd un o gyn-ddisgyblion Llanhari, Anwen Carlisle, yn un o'r actorion. Ac aeth dosbarth 2/3 i weld perfformiad yn Chapter o 'Dros y Garreg', cyflwyniad o storïau byrion.

Ymwelwyr o Japan
Treuliodd dau ymwelydd o Brifysgol Hiroshima fore yn yr ysgol yng nghwmni Geraint Price o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Buont yn edrych ar y plant yn trafod arteffactau o'r amgueddfa ac roeddent yn rhyfeddu at y ffordd yr oedd plant 5-6 oed yn Llantrisant yn gallu trafod cyfrifiaduron hefyd!

Casglu cylchoedd
Wyddoch chi'r cylchoedd plastig hynny sydd ar ben caniau cwrw, tuniau bwyd cath ac ati - i glymu pedwar neu chwech efo'i gilydd?

Cinio Nadolig
Os ydych am ymuno yn y dathlu, bydd gofyn i chi gysylltu â'r ysgrifenyddes Eleri ar frys (208211) - nos Wener, 12 Rhagfyr yn Blas ar Gymru, Caerdydd.

Nadolig Llawen iawn i bawb.

Wel mae plant yr ysgol yn eu casglu. Maent yn eu hanfon wedyn i gartref anifeiliaid yn Lloegr sy'n gofalu am anifeiliaid a anafwyd. Felly peidiwch â'u rhoi yn y bin o hyn ymlaen - rhowch nhw i un o blant Y.G.G. Llantrisant.

Gadael am sbel
Bydd Mrs Mair Williams yn gadael ddiwedd y tymor i ddechrau ar gyfnod mamolaeth. Pob dymuniad da iddi.

Hyfforddiant mewn swydd
Cafodd y staff ddiwrnod o hyfforddiant mewn celf yn ystod mis Tachwedd. Ymwelodd Anthony Evans â'r ysgol i rannu ei syniadau ynglŷn â batik a gwaith 3D â phapur.

Gwasanaethau Nadolig
Cynhelir y gwasanaethau yn Eglwys Llantrisant unwaith eto ac mae'r ysgol yn estyn gwahoddiad cynnes i drigolion yr ardal ymuno yn y dathlu ar 12 Rhagfyr. Bydd y babanod yn cyflwyno 'Dolig yr Anifeiliaid' am ddeg y bore ac am ddau o'r gloch bydd y plant iau yn cyflwyno 'Babuska a'r tri gŵr doeth'.

Nadolig Llawen i'r plant a'r staff i gyd!

SWYDDFA'R POST
TONTEG

Dewis arbennig o gardiau Cymraeg

Gwasanaeth cyflawn a chroesawgar

Prif Heol, Tonteg
01443 202429

MENTER laith

Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

Panto'r Fenter ar daith yn Ysgol Creigiau

DRAMA A DATBLYGIAD MENTER IAITH YN RHONDDA CYNON TAF

Braf ydy ysgrifennu i`r Tafod ar ddiwedd wythnos Gŵyl Ddrama Tafod Elái. Mae`n wych gweld cymaint o gwmnïau drama yn perfformio, cymaint o hwyl a chymaint o egni bob blwyddyn ond yr hyn dwi wir yn mwynhau ydy gweld cymaint o bobl yno yn y cynulleidfaoedd. Arbrawf difyr a wnaeth lwyddo yn fy marn i oedd cael offer cyfieithu yno i ganiatáu i rieni, perthnasau, ffrindiau ac aelodau eraill o'r cyhoedd fwynhau mwy o'r dramâu.

Datblygiad gwerth chweil o`r ŵyl ddrama oedd Panto`r Fenter eleni sef Sinderela a aeth ar daith fer i ysgolion Evan James, Creigiau, Tonyrefail a Chastellau yn ystod yr wythnos. Ennill, ennill, ennill ymhob ffordd roedd hi gyda`r Panto. Roedd y disgyblion uwchradd a wnaeth berfformio wedi mwynhau yn fawr a chael profiad gwych yn y Gymraeg, roedd y disgyblion cynradd a welodd y Panto wedi cael gwledd o adloniant a oedd wedi eu gwefreiddio oddi ar iddynt weld cerbydau`r sioe yn cyrraedd. Roedd yn sioc i rai fod y set wedi cyrraedd o gwbl gan fy mod i wedi cynnig gyrru transit am y tro cyntaf.

Roedd rhai o`r athrawon cynradd wedi mwynhau gweld eu cynddisgyblion yn dychwelyd ac yn defnyddio`r Gymraeg ac os oedd ambell i dreiglad yn anghywir roeddwn i`n falch. Nid oherwydd bod safon ieithyddol wael i`n digwyddiadau ond oherwydd ei fod yn amlwg ein bod yn rhoi cyfle i bobl ifanc nad yw efallai o fewn y pethau bondigrybwyll. Rydym wedi ychwanegu rhyw fymryn at eu Cymreictod a rhoi cyfle iddynt ddatblygu hynny heb bregethu trwy`r amser. Rwyf yn dweud "ni" ond yn golygu Dawn Williams, a`i chwaer/chwiorydd/teulu cyfan, sydd wedi gweithio mor galed a gwneud mor dda gyda sawl un o'n grwpiau drama - Diolch yn fawr iawn.

Cafwyd cyfraniadau hael iawn gan yr ysgolion cynradd at gostau`r daith ddrama ond eto colled ariannol fu heb gyfri oriau di-dal teulu Dawn neu`r gwaith a wnaethpwyd ar y daith o swyddfa`r Fenter. Colli arian y mae`r rhan fwyaf o`n gweithgareddau sydd yn dderbyniol tra bod modd codi arian i wneud yn iawn amdano ond nid oes modd mynd mlaen fel hynny am byth. Mae`r dydd yn dod pan fydd rhaid i`r Fenter Iaith newydd yn Rhondda Cynon Taf sicrhau seiliau ariannol newydd i'w hunan. Bydd mwy o drafodaeth ar hyn cyn bo hir. Mae rhaid gwneud os ydym eisiau datblygu ein gweithgarwch trwy Rhondda Cynon Taf.

Rwyf yn falch o ddweud bod hyn yn symud ymlaen. Mae cynlluniau ar y gweill i agor Cynllun Gofal Plant yn Rhydywaun erbyn yr Haf. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth 100% yn Rhondda Cynon Taf. Bydd gennym gynlluniau ymhob ysgol uwchradd ddwyieithog yn darparu gwasanaeth i bob ysgol gynradd Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf ac ambell i sir gyfagos. Nid oes gwasanaeth tebyg yn unman arall ym Mhrydain. Rydym hefyd yn ymdrechu i benodi swyddog newydd rhan amser er mwyn cyflwyno gweithgareddau eraill yn Rhondda a Chynon.

Rhaid nodi fod datblygiad tymor hir yn dibynnu llawn cymaint ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Rhondda Cynon Taf ag ewyllys pobl Rhondda Cynon Taf. Hyd yn hyn nid oes arwydd fod yr un sefydliad am gyfrannu at waith newydd yn Rhondda a Chynon. O diar !

PARTI PARTI PARTI

Bydd Parti Nadolig cynlluniau chwarae`r Fenter yng Nghlwb Chwaraeon Llanilltud Faerdre ar ddydd Sadwrn 13eg Rhagfyr. Am £2.50 yr un mae`r plant yn cael bwyd, gemau, ymweliad gan Siôn Corn a chonsuriwr. Dyna ichi fargen!

CYLCHLYTHYR NADOLIG Y FENTER

O fewn y dyddiau nesaf dylech chi gael cylchlythyr mega gwych Menter Iaith sydd yn cynnwys pennod gyntaf y nofel ysgafn "Newyddion Ddoe" yn rhad ac am ddim. "Pwy wnaeth e ?" ydy`r llyfr cyffrous hwn ac os ydych chi eisiau gwybod pam a sut y bu farw Erin Rhys bydd rhaid i chi fynd allan i brynu'r llyfr !

CYFRANIAD AR RADIO CYMRU GAN YSGOL LLANHARI

Gobeithio y bydd eitem ddiweddara Ysgol Gyfun Llanhari yn cael ei ddarlledu ychydig cyn y Nadolig. Gwn iddynt geisio cysylltu â sawl grŵp pop go enwog er mwyn gwneud cyfweliadau, gyda help Gethin Thomas o`r Efail Isaf a Lowri Devonald o Radio Cymru, a rwy`n gobeithio y bydd popeth yn iawn ar y noson fel pe tai. Athrawon Rhydfelen - pryd gawn ni wneud project tebyg yn yr ysgol honno ?

STEFFAN WEBB
SWYDDOG DATBLYGU

NADOLIG Y PLANT

Lliwiwch y lluniau

Fedrwch chi ddod o hyd i eiriau ynglyn â'r Nadolig yn y sgwariau hyn. Mae yna 12 i gyd.

rh	w	i	l	o	r	s	a	e	n	u	c	l
u	c	e	l	y	n	l	i	l	p	a	n	i
b	a	dd	h	l	ll	w	t	o	s	d	b	a
a	n	f	p	d	b	e	i	d	t	a	a	m
n	rh	ch	w	c	s	a	n	t	a	i	n	ll
c	e	r	d	i	a	u	s	g	u	n	w	e
l	g	a	i	m	d	i	e	t	w	r	c	i
o	e	s	n	a	d	o	l	i	g	u	o	f
u	ch	e	l	w	y	dd	o	e	n	dd	r	c
ff	r	f	b	t	e	g	a	n	rh	a	w	t



CODI'R TO

Ydych chi'n ysu am gael perfformio ar y bocs?

Mae Cwmni Al Fresco yn chwilio am unigolion neu grwpiau â thalent canu a perfformio i gymryd rhan ym mhedwaredd cyfres 'Codi'r Tô'.

Mae'r gyfres wedi ei sefydlu fel un o gyfresi adloniant mwyaf poblogaidd S4C, ac wedi cynnwys rhai o dalentau gorau Cymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn edrych am ddiddanwyr o bob math, o gantorion i gonsurwyr, ac am gynnal gwrandawiadau yng Nghaerdydd yn ystod mis Chwefror 1998. Mae'r gyfres i'w recordio yn ystod Gorffennaf 1998.

Oes oes diddordeb gennych, gyrrwch lun, tâp sain neu fideo, a 'chydig o wybodaeth arnoch at:

Meinir Mai Jones
Codi'r Tô, Al Fresco
33-35 Heol Y Gadeirlan
Caerdydd CF1 9HB

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda

Ydych chi rhwng 18 - 25?
Oes gennych chi'r bersonoliaeth, y steil, a'r hiwmor i gyflwyno?

Mae Al Fresco yn edrych am gyflwynwyr teledu newydd ar gyfer sawl cynhyrchiad yn ystod 1998.

Os ydych chi'n gweddu, gyrrwch gyflwyniad byr ar fideo, llun diweddar a C.V. at:

Cyflwynwyr Al Fresco,
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd. CF1 9HB

SIOP BARA
Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

Dafydd Hywel a Chwmni Mega yn cyflwyno y Panto

BYTIS TWM SION

gan Hywel Gwynfryn a Caryl Parry Jones
yn Y Miwni, Pontypridd.
Llun i Gwener
o 9 i 23 Ionawr
am 10am a 1pm
Sadwrn 10 Ionawr am 7.30pm
Tocynnau o'r Miwni.